

Pleidleisiau a Thrafodion – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr – Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 7 Tachwedd 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

<http://senedd.tv/cy/5362>

168

Datganiad gan y Llywydd

Gwnaeth y Llywydd ddatganiad i nodi blwyddyn ers marwolaeth Carl Sargeant. Ar ran holl Aelodau'r Cynulliad a staff, cydymdeimlodd y Llywydd yn ddwys â Jack Sargeant a'i deulu.

1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 1 a 2, 4–8 a 10–14. Tynnwyd cwestiynau 3 a 9 yn ôl. Atebwyd cwestiynau 8 ac 11 gan Weinidog yr Amgylchedd. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

Dechreuodd yr eitem am 14.15

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Cafodd cwestiynau 1, 5 ac 8 eu grwpio i'w hateb gyda'i gilydd. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cafodd y trafodion eu hatal dros dro gan y Llywydd am 14.39 oherwydd i ddiffyg ar y microffonau effeithio ar y Siambr. Ailymgynullodd y cyfarfod am 15.30. Cafodd y gloch ei chanu 5 munud cyn ailymgynull.

3 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 15.53

Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus:

Rhun Ap Iorwerth (Ynys Môn): Pa drafodaethau sydd wedi bod rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynglŷn â hyfforddi peilotiaid o Saudi Arabia yn RAF y Fali?

4 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 16.00

Gwnaeth Bethan Sayed ddatganiad am – Cofio Carl Sargeant.

Gwnaeth Jane Hutt ddatganiad am – Menywod yn y Rhyfel Byd 1af.

Gwnaeth David Rees ddatganiad am 36 mlynedd o redeg ras 10k Richard Burton.

Cynnig i ethol Aelod i bwyllgor

Dechreuodd yr eitem am 16.06

NDM6857 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 17.3 a 17.13(ii), yn ethol Llyr Gruffydd (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Cyllid wedi'i Dargedu i Wella Canlyniadau Addysgol

Dechreuodd yr eitem am 16.07

NDM6852 [Lynne Neagle \(Torfaen\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Cyrraedd y nod? Cyllid wedi'i Dargedu i Wella Canlyniadau Addysgol', a [osodwyd](#) yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mehefin 2018

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

6 Brexit a Chydraddoldebau – Canfyddiadau ar y cyd gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Dechreuodd yr eitem am 16.56

NDM6848 [John Griffiths \(Dwyrain Casnewydd\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi casgliadau'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar 'Brexit a Chydraddoldebau' a [osodwyd](#) yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Hydref 2018.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Lluoedd Arfog

Dechreuodd yr eitem am 17.34

Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

NDM6854 [Darren Millar \(Gorllewin Clwyd\)](#)

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod Sul y Cofio eleni yn nodi canmlwyddiant Diwrnod y Cadoediad a ddiwedd y rhyfel byd cyntaf.
2. Yn croesawu ymgyrch 'Thank you 100' y Lleng Brydeinig Frenhinol, sy'n cofio'r rhai a wasanaethodd, aberthodd a newidodd ein byd rhwng 1914 a 1918.

3. Yn anrhydeddu cyfraniad y rheini sydd wedi gwasanaethu ac sy'n parhau i wasanaethu yn ein lluoedd arfog.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i benodi comisiynydd y lluoedd arfog i Gymru er mwyn sicrhau bod Cyfamod y Lluoedd Arfog yn cael ei gynnal.

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
16	0	35	51

Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1 – [Julie James \(Gorllewin Abertawe\)](#)

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:

Yn croesawu penodi Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog drwy Gymru a dull cydweithredol Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog o fynd ati i sicrhau bod Cyfamod y Lluoedd Arfog yn cael ei gynnal.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
35	3	13	51

Derbyniwyd gwelliant 1.

Gwelliant 2 – [Neil McEvoy \(Canol De Cymru\)](#)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau Deddf peidio â gadael yr un milwr ar ôl a fyddai'n gwarantu ansawdd tai a gofal iechyd i gyn-filwyr sydd wedi gweld gwasanaeth gweithredol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
---------	--------	----------	----------

6	18	27	51
---	----	----	----

Gwrthodwyd gwelliant 2.

NDM6854 [Darren Millar \(Gorllewin Clwyd\)](#)

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod Sul y Cofio eleni yn nodi canmlwyddiant Diwrnod y Cadoediad a ddiwedd y rhyfel byd cyntaf.
2. Yn croesawu ymgyrch 'Thank you 100' y Lleng Brydeinig Frenhinol, sy'n cofio'r rhai a wasanaethodd, aberthodd a newidodd ein byd rhwng 1914 a 1918.
3. Yn anrhydeddu cyfraniad y rheini sydd wedi gwasanaethu ac sy'n parhau i wasanaethu yn ein lluoedd arfog.
4. Yn croesawu penodi Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog drwy Gymru a dull cydweithredol Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog o fynd ati i sicrhau bod Cyfamod y Lluoedd Arfog yn cael ei gynnal.

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
47	3	1	51

Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.

8 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 18.35

9 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 18.37

NDM6853 [Angela Burns \(Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro\)](#)

Cymru wledig – economi i'w hyrwyddo.

Daeth y cyfarfod i ben am 19.01

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 13 Tachwedd 2018